

Mr Steve Bartley
5^{ed} Llawr, Harlech Court,
Teras Bute,
Caerdydd
CF10 2FE

Llinell Uniongyrchol: 02920 928866
Ffacs: 02920 928914
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref Pinetree Court

9 Ionawr 2013

Annwyl Mr Bartley

Ymweliad a gynhaliwyd â Pinetree Court, 904 Heol Casnewydd, Caerdydd, ar 15 a 16 Tachwedd 2012

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi cynnal ymweliad dirybudd ag ysbyty annibynnol Pinetree Court, Caerdydd ar 15 a 16 Tachwedd 2012. Amlygodd yr ymweliad nifer o faterion o bwys, ac mae angen cymryd camau brys i'w hunioni. Trafodwyd y rhain gyda chi, y rheolwr rhanbarthol a Rheolwr Cofrestredig Pinetree Court yn gyntaf, ar ddiwrnod olaf ein hymweliad.

Nodir crynodeb o'n pryderon a'r achosion o dorri rheoliadau isod:

Mater sy'n peri pryder	Rheoliad
1. Nid oedd tystiolaeth i ddangos bod nifer y staff sydd ar gael wedi ei seilio ar ddadansoddiad o anghenion gofal ac adsefydlu ac iechyd a lles y grŵp cleifion. Hefyd, roedd nifer sylweddol o'r cleifion yn arddangos ymddygiad heriol iawn ac mae'n hanfodol bod dadansoddiad cadarn o anghenion y cleifion yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod nifer briodol o staff ar gael bob amser i fodloni anghenion unigol y cleifion.	Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c) a 20 (1) (a)
2. Derbyniwyd sylwadau negyddol gan nifer o'r staff a'r cleifion ynglŷn â lefel diogelwch yr ysbyty. Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig gynnal adolygiad o'r holl fesurau diogelwch sydd wedi eu sefydlu i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer model gofal adsefydlu dan glo.	Rheoliad 19 (1) (a) a (b) a 26 (2) (a)

<p>3. Roedd nifer o'r cleifion a oedd yn derbyn gofal yn yr ysbyty yn arddangos ymddygiad heriol iawn ac roedd hyn yn cael effaith sylweddol ar gleifion eraill. Mae'n rhaid i chi ddangos bod Pinetree Court yn gallu bodloni anghenion unigol yr holl gleifion a sicrhau AGIC bod yr holl dderbyniadau i Pinetree Court wedi bod yn briodol a'u bod yn parhau i fod yn briodol.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b)</p>
<p>4. Nid oedd y cynllun gofal a rheoli ar gyfer claf SK wedi ei ddiweddarau a'i werthuso ar ôl dau ddiwyddiad o bwys, pryd yr oedd y claf wedi gallu cael mynediad i dir yr ysbyty heb awdurdod. Daeth y mynediad hwn yn bosibl drwy fod SK wedi achosi difrod sylweddol trwy dorri nifer o ffenestri'r ysbyty.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b) a 19 (1) (a) a (b)</p>
<p>5. Nid oedd unrhyw ddogfennau ar gael ynglŷn â mentora niysys a oedd newydd gofrestru .</p>	<p>Rheoliad 20 (2) (a)</p>
<p>6. Roedd gweithredoedd wedi eu nodi yng nghofnod electronig claf SK a oedd yn nodi dyddiadau na allai fod yn gywir gan eu bod yn y dyfodol ac nid yn ddyddiadau yn y gorffennol.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b)</p>
<p>7. Roedd absenoldeb rheolwr ar ward Juniper yn cael effaith negyddol ar ysbryd y staff. Cydnabyddir, fodd bynnag, bod rheolwr wedi ei benodi.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (a)</p>

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn 31 Ionawr 2013 yn nodi'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â phob un o'r materion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu nodi amserlenni a manylion yr unigolion a fydd yn gyfrifol am gymryd y camau angenrheidiol. Pan fydd AGIC wedi cytuno bod y cynllun yn briodol, bydd yn ofynnol i chi ddarparu diweddariadau bob mis.

Ar ôl derbyn eich cynllun gweithredu, cyhoeddir copi o'r llythyr rheoli hwn, gyda chopi o'r cynllun gweithredu, ar ein gwefan.

Byddwn o bosibl yn cynnal ymweliad arall i sicrhau bod y materion uchod wedi derbyn sylw priodol a byddwn yn cynnal ymweliadau mwy aml os byddwn yn pryderu nad yw'r camau gofynnol yn cael eu cymryd mewn modd prydlon.

Mae croeso i chi gysylltu â mi pe byddech yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn hefyd at Mr Paul Sutton, Rheolwr Cofrestredig Ysbyty Pinetree Court.

Yn gywir

John Powell

Mr John Powell
Pennaeth Rheoleiddio